# BETH YW MYTHAU A CHWEDLAU CYMRU?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried y geiriau 'myth' a 'chwedl' ac yn archwilio beth maen nhw'n ei olygu mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn archwilio amrywiaeth o fythau a chwedlau Cymreig ac yn dechrau meddwl am eu myth neu chwedl eu hunain, gan ddefnyddio tiroedd yr ysgol neu'r ardal leol i danio eu dychymyg. Mae dysgwyr yn holi eu teuluoedd am straeon sydd wedi cael eu hadrodd ers amser maith a sut rydyn ni'n defnyddio mythau a chwedlau. Yna, maen nhw'n creu map meddwl ynghylch iaith a chreaduriaid chwedlonol, gwrthrychau hudol ac arwyr/arwresau cyn creu bwrdd stori neu stribed cartŵn i ddangos eu myth neu chwedl nhw.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW MYTHAU A CHWEDLAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw archwilio beth mae'r geiriau 'myth' a 'chwedl' yn ei olygu iddyn nhw ac fel man cychwyn byddwch yn gofyn iddyn nhw ystyried pob un o'r geiriau ar wahân.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y 'pennau'n siarad' i ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol. Gwahoddwch barau o ddysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Gyda phwy ydych chi'n cytuno fwyaf? Pam?
- Gyda phwy ydych chi'n anghytuno? Pam?
- Beth yw myth, yn eich barn chi?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Dangoswch y delweddau i'r dysgwyr fel ysgogiad ac yna'u hannog i ysgrifennu diffiniad o 'chwedl'.

## Sgrîn 5

Dangoswch y diffiniadau o'r gair 'myth' i'r dysgwyr.

- stori draddodiadol, yn enwedig un sy'n ymwneud â hanes cynnar pobl neu sy'n esbonio ffenomen naturiol neu gymdeithasol, ac sy'n ymwneud fel arfer â bodau neu ddigwyddiadau goruwchnaturiol:
  - **'chwedlau Celtaidd hynafol' – 'arwyr mythau Groegaidd'**
- cred neu syniad sy'n wybyddus i lawer o bobl, ond sy'n ffug:
  - **'myth yw'r gred bod olew melyn yr hwyr yn helpu i wella llid ar y croen, yn ôl dermatolegwyr'**
- camddehongliad o'r gwirionedd:
  - **'ymosod ar fythau anghyfrifol y blaid wleidyddol, ynghylch preifateiddio'**
- person neu beth dychmygol:
  - **'does neb erioed wedi clywed am ffrind dirgel Seimon—dywedodd Anna mai myth oedd e'**

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddarllen y diffiniadau ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddiffiniad sy'n debyg i'ch diffiniad chi?
- Pa ddiffiniad sy'n wahanol i'ch diffiniad chi?
- Sut gallech chi newid eich diffiniad, er mwyn ei wella?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod gyda phartner beth maen nhw'n ei feddwl yw 'chwedl' drwy ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw 'chwedl', yn eich barn chi?
- Ble ydych chi wedi clywed y gair 'chwedl'? At beth yr oedd yn cyfeirio?
- Pryd ydych chi wedi defnyddio'r gair 'chwedl'? Pam wnaethoch chi ei ddefnyddio?
- Pa chwedlau ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut ydych chi'n gwybod amdanynt?

Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhestr o eiriau y bydden nhw'n eu defnyddio i ddisgrifio beth yw chwedl. Anogwch nhw i ddefnyddio eu syniadau a rhai o'r geiriau o'r rhestr i ysgrifennu diffiniad o beth yw chwedl.

### Sgrîn 7

Rhowch ddiffiniad i'r dysgwyr o beth yw 'chwedl'. Gwahoddwch nhw i ddarllen y diffiniad ac i drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner.

- stori draddodiadol a ystyrir fel un hanesyddol gan lawer o bobl, ond heb ei dilysu:
    - **'chwedl y Brenin Arthur' neu 'yn ôl y chwedl, fe gafodd wared o'r holl nadroedd o Iwerddon'**

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r diffiniad hwn yn debyg i'ch un chi?
- Sut mae'r diffiniad hwn yn wahanol i'ch un chi?
- Sut gallech chi newid eich diffiniad, er mwyn ei wella?

### Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cynnig ar y cwis i weld a ydyn nhw'n gwybod y gwahaniaethau rhwng mythau a chwedlau.

TASG 2

## MEDDWL AM FYTHAU A CHWEDLAU CYMREIG

Yn y dasg hon, mae dysgwyr yn mynd i ystyried amrywiaeth o fythau a chwedlau Cymreig. Eglurwch wrthynt mai pwrpas hyn yw er mwyn eu helpu i gynhyrchu eu myth neu chwedl eu hunain yn y dasg nesaf.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip fideo (tua 3 munud a hanner) ac ystyried y cwestiynau canlynol.

[Gwyllgi - Devil Dog of Darkness. Welsh Legends]

**Cwestiynau ffocws**

- Ai myth neu chwedl yw Gwyllgi? Pam?
- Pa fythau neu chwedlau Cymreig eraill ydych chi wedi clywed amdanyn nhw? Pryd? Sut? Beth ydych chi'n ei gofio amdanyn nhw?

### Sgrîn 4

Rhowch esiampl i'r dysgwyr o chwedl Gymreig, sef Guto Nyth Brân, rhedwr chwedlonol o'r 18fed ganrif. Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen am y chwedl ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ai myth neu chwedl yw Guto Nyth Brân? Pam?
- Pa mor bell allech chi redeg mewn 53 munud? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgriniau 5-6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored a gofynnwch iddynt fesur pa mor bell y gallant redeg mewn munud. Yna, trafodwch y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor bell wnaethoch chi redeg? Sut oeddech chi'n teimlo? Pam?
- Pa mor bell fyddech chi wedi rhedeg mewn 53 munud? Sut wnaethoch chi ei gyfrifo? Pam ei gyfrifo fel yna?
- Pa mor hir y byddai'n ei gymryd i chi redeg 12 milltir? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 7

Cyflwynwch yr arferiad chwedlonol Cymreig am draddodiad y Fari Lwyd i'r dysgwyr. Ceffyl gwyn sy'n ymddangos ym misoedd tywyllaf y flwyddyn Gymreig yw'r Fari Lwyd, gan ddod â direidi a chaneuon/penillion i ddrws yr aelwyd. Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen am y Fari Lwyd ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ai myth neu chwedl yw'r Fari Lwyd? Pam?
- Pa benillion neu rapiau allech chi eu hysgrifennu i gael mynediad i rywle ac i godi ofn ar rywun?

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu penillion neu rapiau y gallen nhw eu defnyddio i geisio cael mynediad i dŷ neu i'w defnyddio i sicrhau fod pobl sy'n ceisio mynd i mewn i'w tŷ, yn cadw draw. Anogwch rai dysgwyr i fynd y tu allan i adeilad yr ysgol er mwyn cymryd rhan mewn 'brwydr odli', ar ffurf rap efallai, tra bod dysgwyr eraill yn aros o fewn adeilad yr ysgol. Sicrhewch fod pob dysgwr yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r grwpiau odli sydd y tu allan a thu mewn i'r adeilad.

## Sgriniau 8-15

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n datblygu myth neu chwedl newydd yn seiliedig ar rywbeth maen nhw'n dod o hyd iddo yn yr awyr agored. Er mwyn eu helpu i feddwl am hyn, gofynnwch iddynt ddarllen y saith sgrin nesaf sy'n darparu manylion am rai mythau a chwedlau Cymreig.

- **Pontarfynach** - Mae'r tirwedd hwn yng Nghymru mor brydferth fel ei fod yn denu ymwelwyr o bob cornel o'r byd, gan gynnwys, mae'n debyg, yr isfyd. Yn ôl y chwedl, ymwelodd Satan ei hun â Cheredigion yn yr 11eg Ganrif i weld beth oedd y ffŷs ynghylch y lle. Tra'n aros yno, cyfarfu â gwraig yr oedd ei buwch wedi crwydro ar draws yr afon a doedd ddim yn gwybod sut i gael y fuwch yn ôl. Cynigiodd y Diafol adeiladu pont iddi er mwyn achub y fuwch, yn gyfnewid am y peth byw cyntaf oedd yn croesi'r bont. Ar ôl meddwl yn galed, fe gytunodd y wraig. Cyn gynted ag yr adeiladwyd y bont, taflodd dorth o fara ar ei thraws, a rhedodd ei chi yn ufudd ar ôl y dorth.
- **Angelystor** - Mae Angelystor yn ysbryd goruwchnaturiol, bygythiol, ac fe honnir fod yr ysbryd yn ymddangos ym mhentref Llangernyw. Mae hyn yn digwydd bob blwyddyn o dan goeden ywen yn y fynwent sy'n 3,000 o flynyddoedd oed, unwaith ar Galan Gaeaf ac eto ar y 31ain o Orffennaf. Bydd yr ysbryd yn cyhoeddi yn Gymraeg, enwau'r bobl leol a fydd yn cwrdd â'u diwedd (marw) yn fuan. Yn ôl llên gwerin, roedd teiliwr o'r enw Shon ap Robert yn amheus iawn o'r chwedl hon. Cafodd ei herio gan y pentrefwyr i brofi fod eu hofnau ynghylch yr ysbryd yn anghywir. Aeth i'r eglwys ar Nos Galan Gaeaf ac er mawr syndod iddo, roedd Angelystor yno yn dweud enw Shon ap Robert. Bu farw yn ddiweddarach y flwyddyn honno.
- **Taliesin** - Daeth Taliesin yn fardd enwocaf Prydain, gan ragfynegi marwolaeth y brenin drwg, Maelgwyn Gwynedd dan law 'bwystfil melyn'. Trwy gyfrwng ei farddoniaeth mae'n ysbrydoli rhyfelwyr Celtaidd Prydain yn eu brwydr yn erbyn y goresgynwyr Sacsonaidd. Tua diwedd ei oes mae Taliesin yn gwneud proffwydoliaeth enwog am dynged y Prydeinwyr, a cafodd hyn arwyddocâd aruthrol ar y Gymru gyfoes:

  **'Eu Nêr a folant,**
  **eu hiaith a gadwant,**
  **eu tir a gollant,**
  **ond Gwyllt Walia.'**
- **Cad Goddeu** - Cerdd ganoloesol yw Cad Goddeu, sy'n adrodd sut mae swynwr chwedlonol o'r enw Gwydion yn bywddarlunio coed y goedwig i ymladd fel ei fyddin mewn brwydr. Mae rheng flaen y fyddin yn cael ei harwain gan y wernen, sydd i'w chanfod ar gyrion afonydd ac sy'n cytrefu'n gynnar mewn coetiroedd.

  **'Gwern blaen llin,**
  **A want gysseuin**
  **Helyc a cherdin**
  **Buant hwyr yr vydin.'**

- **Gelert y ci** - Yn y 13eg Ganrif, roedd gan y Tywysog Llywelyn Fawr balas ym Meddgelert, a threuliodd lawer o'i amser yn hela yn y wlad o amgylch ei balas.
  Un diwrnod, pan alwodd Llywelyn ar ei gŵn fel arfer, ni ymddangosodd ei hoff gi Gelert, felly bu'n rhaid i Llywelyn fynd i hela hebddo.
  Pan ddychwelodd Llywelyn o'r helfa, roedd Gelert yn llamu tuag ato i'w gyfarch, ac roedd gwaed yn diferu o'i geg.
  Dechreuodd Llywelyn feddwl y gallai fod rhywbeth erchyll wedi digwydd. Ai gwaed ei fab blwydd oed oedd ar drwyn y ci? Edrychodd yn y feithrinfa ac yno roedd crud y baban â'i draed i fyny a gwaed drosto ym mhob man! Chwiliodd am ei fab, ond doedd dim golwg ohono. Roedd Llywelyn yn argyhoeddedig fod Gelert wedi lladd ei fab.
  Yn wallgof mewn galar, cymerodd ei gleddyf a'i blymio i galon Gelert.

  Wrth i'r ci udo mewn poen wrth iddo farw, clywodd Llywelyn gri plentyn yn dod o dan y crud oedd â'i draed i fyny. Sylweddolodd mai ei fab ydoedd, yn ddianaf!

  Wrth ymyl y plentyn roedd blaidd enfawr wedi marw; roedd wedi'i ladd gan Gelert, y ci dewr.

  Roedd Llywelyn yn llawn edifeirwch a chariodd gorff ei gi ffyddlon y tu allan i'r adeilad ac at furiau'r castell, a'i gladdu lle gallai pawb weld ei fedd.
- **Yr Afanc** - Bwystfil dieflig mawr yn byw mewn llyn oedd Yr Afanc. Roedd ar ffurf corrach afluniaidd, afanc enfawr neu grocodeil.
  Roedd llifogydd ofnadwy yn amharu ar bobl a oedd yn byw ar hyd Dyffryn Conwy. Roedd y llifogydd yn boddi eu hanifeiliaid ac yn difetha eu cnydau. Roedd pawb yn credu mai Yr Afanc oedd ar fai.
  Roedd Yr Afanc yn byw yn Llyn-yr-Afanc yn Afon Conwy. Roedd yn fwystfil anferth a oedd yn ddigon cryf i dorri glannau'r pwll gan achosi'r llifogydd, pan roedd yn flin. Roedd llawer o ymdrechion wedi'u gwneud i'w ladd, ond mae'n ymddangos bod ei guddfan mor wydn, fel na allai unrhyw waywffon, saeth nac unrhyw arf o waith dyn ei thyllu.
  Cynhaliodd pobl ddoeth y dyffryn gyfarfod a phenderfynu os na fyddai grym yn gweithio, y byddai'n rhaid hudo'r Afanc allan o'i bwll a'i symud i bwll arall ymhell i ffwrdd, lle na allai achosi unrhyw drafferth pellach.
  Roedd morwyn ifanc yn ddigon dewr i hudo Yr Afanc allan o'r dŵr er mwyn i'r dynion ei ddal a'i symud i'r pwll oedd yn bell i ffwrdd.
- **Y Cyhyraeth** - Yn debyg i'r Cyhyraeth Gwyddelig, ysbryd annelwig sydd ynghlwm wrth farwolaeth ac nad yw byth bron yn cael ei chlywed yw Y Cyhyraeth. Dywedir ei bod yn griddfan ac yn crio cyn marwolaeth rhywun neu farwolaethau niferus a achosir gan drychineb neu epidemig. Mae hi hefyd yn wylo am farwolaeth brodorion sydd wedi marw i ffwrdd o'u mamwlad. Mae hi'n aml yn ymddangos yn eithaf hyll gyda gwallt hir, du, clymog, dannedd du, breichiau a choesau tenau iawn. Mae hi'n welw iawn ac mewn rhai achosion mae ganddi adenydd lledr.

## Sgrîn 16

Ar ôl darllen y straeon, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa straeon sy'n fythau a pha rai sy'n chwedlau? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa un yw eich hoff stori? Pam?
- Ydy unrhyw rai o'r straeon yn codi ofn arnoch chi? Pa rai? Pam?
- Pa rai o'r straeon oeddech chi wedi clywed amdanyn nhw o'r blaen? Pryd?

## Sgrîn 17

Cyn i'r dysgwyr fynd allan i'r awyr agored i ddod o hyd i nodweddion diddorol sy'n tanio eu dychymyg, gofynnwch iddynt feddwl am y cwestiynau canlynol:

- Pa fathau o bethau ydych chi'n mynd i chwilio amdanynt? Pam?
- Beth sydd angen i chi ei gymryd y tu allan er mwyn cofnodi gwybodaeth am y nodweddion diddorol?

## Sgrîn 18

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored (ar dir yr ysgol neu'r ardal leol) a dod o hyd i nodweddion diddorol sy'n tanio eu dychymyg. Y syniad yw fod dysgwyr yn canfod, er enghraifft: carreg, coeden, twmpath, cerfiad ac ati ar dir yr ysgol, y gellid ei defnyddio fel sail i ddatblygu myth neu chwedl syml. Gwahoddwch nhw i ddewis un o'r nodweddion diddorol hyn i'w defnyddio fel sail i greu myth neu chwedl.

## Sgrîn 19

Unwaith y byddwch yn ôl i mewn dan do, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol a nodi eu syniadau ar gyfer eu defnyddio yn nes ymlaen.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion diddorol wnaethoch chi eu darganfod ar dir yr ysgol?
- Pam wnaeth y nodweddion diddorol hyn danio'ch dychymyg?
- Pa nodwedd ddiddorol wnaethoch chi ei dewis? Pam?
- Pa syniadau sydd gennych chi am fyth neu chwedl y gallech chi eu creu am y nodwedd hon?

TASG 3

# SUT YDYN NI'N DEFNYDDIO MYTHAU A CHWEDLAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod ni'n mynd i edrych ar fythau a chwedlau o safbwynt eu teuluoedd ac ystyried pam maen nhw'n cael eu hadrodd a sut maen nhw wedi ysbrydoli eraill.

## Sgrîn 3

Gallwch ennyn diddordeb y dysgwyr gyda'r syniad ein bod ni i gyd yn adrodd straeon. Rydyn ni'n adrodd neu ddweud straeon am bethau sydd wedi digwydd yn yr ysgol neu yn y gwaith, gartref, ar wyliau a phan rydyn ni allan gyda ffrindiau. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa stori ydych chi'n hoffi ei dweud fwyaf?
- Pam ydych chi'n dweud y stori hon?
- Ydy hi'n stori ddifyr i bobl eraill? Pam?
- Wrth bwy fyddech chi'n dweud y stori hon? Pryd?
- A oes gwers i'w dysgu yn y stori hon? Beth yw'r wers?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr adrodd eu straeon i'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn ôl pob tebyg wedi clywed pobl yn eu teulu yn adrodd straeon am bethau sydd wedi digwydd yn y gorffennol ac y gallai'r straeon hyn fod wedi dechrau gyda geiriau fel:

- Dw i'n cofio unwaith...
- Roedd yna un tro pan...
- Rydw i am ddweud stori ddoniol wrthych am eich...

Gwahoddwch y dysgwyr i ofyn i bob aelod o'u teulu ddweud stori wrthyn nhw, gan egluro pam maen nhw'n hoffi'r stori a pham maen nhw'n ei dweud wrth bobl eraill. Yna, gallant ddewis eu ffefryn a bod yn barod i'w rhannu pan y byddant yn ôl yn yr ysgol.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa straeon glywsoch chi? Pa un oedd eich ffefryn? Pam?
- Am bwy roedd y straeon?
- Pam ydych chi'n meddwl bod eich teulu'n adrodd straeon fel hyn?
- A ydych chi'n meddwl bod unrhyw un o'r straeon a glywsoch yn fyth neu'n chwedl? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 6

Ar y sgrin hon, darperir gwybodaeth i'r dysgwyr sy'n egluro'r rhesymau pam fod mythau a chwedlau yn bodoli.
Mae mythau a chwedlau yn bodoli i...

- Egluro'r byd a phrofiadau dynol.
- Cynnig atebion i gwestiynau tragwyddol a cheisio darparu cyfeiriad i bob cenhedlaeth.
- Darparu gobaith i bobl allu byw bywyd gwell yn y dyfodol, trwy fyw bywyd rhinweddol.
- Creu traddodiad diwylliannol.
- Rhoi rhybuddion bywyd i genedlaethau'r dyfodol, sydd fel arfer wedi'u trawsnewid yn fodau gwrthun neu oruwchnaturiol, neu'n sefyllfaoedd hudolus neu annhebygol.

Gallech gyflwyno'r uchod i'r dysgwyr, gan drafod pob bwled a chasglu eu syniadau. Atgoffwch y dysgwyr am y stori deuluol neu bersonol y gwnaethon nhw ei rhannu a gofynnwch iddyn nhw ystyried pa un o'r pwyntiau bwled sydd yn cydweddu agosaf gyda'u stori nhw, gan egluro pam maen nhw'n meddwl hynny.

## Sgrîn 7

Hysbyswch y dysgwyr bod chwedloniaeth Cymru wedi bod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i lawer o artistiaid, awduron a gwneuthurwyr ffilm. Mae straeon a chwedlau mytholeg Cymru wedi'u haddasu'n ffurfiau amrywiol ar gelfyddyd, gan gynnwys llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y Mabinogion, sef casgliad o chwedlau Cymreig, wedi bod yn ffynhonnell arbennig o gyfoethog o ran darparu ysbrydoliaeth i artistiaid. Mae straeon y Mabinogion wedi'u haddasu'n ddramâu, operâu a ffilmiau, ac wedi ysbrydoli llawer o awduron. Gellir dod i'r casgliad bod chwedloniaeth Cymru wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog o ysbrydoliaeth i artistiaid ar draws amrywiol gyfryngau. Mae straeon a chwedlau mytholeg Cymru yn parhau i ysbrydoli gweithiau celf newydd ac yn debygol o barhau i wneud hynny am flynyddoedd i ddod.

TASG 4

# SUT GALLWN NI GREU EIN MYTHAU NEU CHWEDLAU EIN HUNAIN?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ystyried gwahanol syniadau ac elfennau y gallen nhw eu cynnwys yn eu myth neu chwedl eu hunain. Trwy gydol y dasg, gofynnir iddynt lunio map meddwl o'u syniadau a defnyddio'r nodiadau hyn i ddatblygu bwrdd stori neu stribed cartŵn o'r stori.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw nawr yn mynd i gysylltu'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod ac a daniodd eu dychymyg yn yr awyr agored yn Nhasg 2, gan ddechrau creu map meddwl i ddangos unrhyw ysbrydoliaeth a gawsant o hyn.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y testun am JRR Tolkien a sut y defnyddiodd Gymru ac enwau lleoedd yng Nghymru fel ysbrydoliaeth.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r map i edrych ar yr ardal leol a gwneud rhestr o unrhyw enwau Cymraeg sydd ar strydoedd neu leoedd y maen nhw'n eu gweld. Gallen nhw ychwanegu unrhyw eiriau neu dermau Cymraeg eraill sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Yna, gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio eu rhestr o eiriau i greu enwau cymeriadau a lleoedd y gallent eu defnyddio wrth ysgrifennu eu myth neu chwedl. Gofynnwch iddyn nhw ychwanegu'r rhain at eu map meddwl.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried pa wrthrychau hudol y gallen nhw eu cynnwys yn eu stori, drwy ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wrthrychau hudol a geir fel arfer mewn mythau a chwedlau?
- Pa wrthrych hudol y byddwch chi'n ei ddefnyddio ar gyfer eich stori? Pam?
- Sut bydd eich arwr yn dod o hyd i'r gwrthrych hudol? Pa gliwiau fydd yn rhaid iddyn nhw eu datrys? Sut byddan nhw'n gwneud hyn?
- Beth fydd yn rhaid i'ch arwr ei wneud i gael y gwrthrych hudol?

Yna, gall y dysgwyr nodi eu syniadau ar eu map meddwl.

## Sgrîn 7

Anogwch y dysgwyr i feddwl am y creadur y gallen nhw ei ddefnyddio yn eu stori. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa greaduriaid mytholegol neu chwedlonol ydych chi'n gwybod amdanynt? Pa un yw eich ffefryn? Pam?
- Ym mhle bydd eich creadur yn byw? Pam?
- Sut bydd yn gwneud defnydd o'r lle hwn? Pam?
- Sut gallech chi ddefnyddio nodweddion fel cymylau a choed i'ch helpu wrth greu eich stori?
- Sut olwg fydd ar eich creadur? Pam?
- Pa nodweddion fydd gan eich creadur? Pam?
- Pa rymoedd arbennig fydd ganddo? Sut y bydd yn defnyddio'r grymoedd hyn? Pam?
- Beth fydd enw eich creadur? Pam?

Yna, gall y dysgwyr nodi syniadau ar eu map meddwl a thynnu llun eu creadur.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am eu harwyr trwy ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy neu beth fydd arwr eich stori?
- A fydd ganddynt rymoedd arbennig? Os felly, beth fydd eu grymoedd arbennig? Pam?
- Sut y bydd y grymoedd arbennig hyn yn eu helpu i frwydro yn erbyn eich creadur?
- Sut y bydd eich arwr yn gweithredu'n fwy cyfrwys na'ch creadur?

Yna, gallai'r dysgwyr nodi eu syniadau ar eu map meddwl.

## Sgrîn 9

Ychydig cyn i'r dysgwyr ddechrau cynhyrchu eu stori, gofynnwch iddynt ei chynllunio gan ddefnyddio eu map meddwl a'u llun. Atgoffwch nhw i sicrhau eu bod wedi meddwl am y canlynol:

- agoriad cyffrous
- lleoedd, pobl neu ddigwyddiadau
- problem i'w datrys
- plot sy'n dangos sut y cafodd y broblem ei datrys
- diweddglo sy'n dangos beth sy'n digwydd i'r prif gymeriadau.

Nawr gallant greu bwrdd stori neu stribed cartŵn i ddangos eu stori. Gallent wneud hyn ar bapur neu'n ddigidol.